



YSGOL GYMUNED LLANFECHELL COMMUNITY SCHOOL
FFORDD Y MYNYDD
LLANFECHELL
AMLWCH
YNYS MÔN
LL68 OSA

PENNAETH / HEAD TEACHER: Mr. Gareth R. Corps B.Add. (Anrhyd.)

01407 710 512

www.ysgollanfechell.org

swyddfa@llanfechell.anglesey.sch.uk

Dysgu trwy brofiad / Learning through experience

Cylchlythyr 1 - Medi'r Sed, 2011

Croeso yn ôl i bawb, a gobeithio eich bod wedi mwynhau egwyl dda. Rwy'n hynod o falch o gael croesawu ein disgyblion newydd i'r dosbarth Meithrin ac hefyd i Phobe sydd yn cychwyn yn y dosbarth derbyn - croeso mawr!

Cysylltu efo'r ysgol

Rydym yn ystyried cyfathrebu gyda rhieni yn hynod bwysig, ac yn eich annog i gysylltu os ydych am gael sgwrs unrhyw adeg. Gallwch hefyd gysylltu trwy'r system 'Teachers2Parents', trwy ebost, ffôn neu gyfarfod wyneb yn wyneb. Mae ein gwefan newydd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am yr ysgol, dyddiadur cyfredol ac hefyd gwybodaeth am ddsbarth eich plentyn. Y cyfeiriad yw www.ysgollanfechell.org. Byddwn yn adolygu'r wefan pob prynhawn Gwener er mwyn gosod gwybodaeth newydd arni. **Gofynnwn yn garedig i chwi adael i ni wybod os ydych wedi newid eich rhifau ffôn fel ein bod yn gallu diweddarau ein systemau.**

Dyddiadau'r tymor

Bydd llythyr yn eich cyrraedd cyn diwedd yr wythnos hon fydd yn cynnwys dyddiadau pwysig. Bydd y dyddiadau hefyd yn ymddangos ar wefan yr ysgol.

Ffrwythau Amser Chwarae

Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol iach, felly mae posib' i'r plant brynu ffrwyth yn ystod amser chwarae'r bore. Pris y ffrwyth yw 20c. Gan fod yfed dwr yn bwysig iawn, rydym yn gwerthu poteli dwr am £1.50. Maent ar gael trwy gysylltu a'r athrawes ddsbarth.

Cinio Ysgol

Pris cinio ysgol eleni yw £1.85 (dyddiol) neu £9.25 (wythnosol). Gofynnwn, yn garedig i chwi dalu am y cinio naill ai ar ddydd Llun neu ddydd Gwener.

Clwb Brecwast

Mae'r clwb brecwast am ddim yn parhau eto eleni, ac mae posib i blant o'r Meithrin hyd at blwyddyn 6 ymuno. Bydd y clwb yn cychwyn am 8.15 a.m. ac yn gorffen am 8.45 a.m. Er mwyn diogelwch, gofynnwn i rieni beidio a dod a'u plant i'r ysgol cyn 8.15 a.m. Diolch.

Addysg Gorfforol

Mae angen gwisg addysg gorfforol ar eich plenty ar y dyddiau canlynol:

Dosbarth Miss Jones - dydd Mercher a dydd Iau
Blynnyddoedd 1 a 2 - dydd Llun a dydd Mercher
Blynnyddoedd 3 a 4 - dydd Mercher a dydd Gwener
Blynnyddoedd 5 a 6 -

Cais

Fel y gwyddoch mae gennym lawer o liniaduron yn yr ysgol ac mae nifer o'r 'llygod' wedi torri. Os oes gennych lygod cyfrifiadur nad ydych eu hangen, buasem yn falch iawn o'u derbyn! Diolch.

Gwirfoddoli yn yr ysgol

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gwirfoddoli yn yr ysgol (e.e. i gynorthwyo gyda'r darllen, gwaith llaw, garddio, nofio, chwaraeon a.y.y.b.) yna mae croeso i chwi gysylltu. Mae pob un o'n gwirfoddolwyr wedi derbyn gwiriad CRB.

Myfyrwraig

Rwyf yn falch o glywed fod Miss. Amy Hargreaves, a oedd yn fyfyrwraig efo ni cyn yr Haf, yn gwella wedi cyfnod o salwch. Bydd yr ysgol yn casglu tuag at gael blodau iddi ac mae croeso i unrhyw un sydd yn dymuno cyfrannu gysylltu efo ni.